CYFRES B2

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Ioan 2: 1-11

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 2: 5

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 1 Iesu'n troi'r dŵr yn win.

Ydych chi wedi bod mewn priodas erioed? Os ydych chi, fe fyddwch chi'n gwybod bod priodas yn achlysur hapus iawn – os nad oes rhywbeth yn mynd o'i le! Roedd Iesu a rhai o'i ddisgyblion wedi mynd i briodas. Roedd rhywun arall pwysig yno hefyd.

C I gael gwybod beth oedd ei henw, ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau yn y lluniau.

_____ _____ _____ _____

4

Roedd y briodas yn cael ei chynnal mewn tref fach yng Ngalilea.

C Ysgrifennwch enw'r dref isod gan ddefnyddio'r llythrennau a gadael y clychau priodas allan.

2

Enw'r dref oedd _ _ _ _.

Yn ystod gwledd y briodas, pan oedd pawb yn mwynhau eu hunain, daeth y gwin i ben! Beth allen nhw ei wneud? Byddai pawb mor siomedig! Gwnaeth Mair beth doeth iawn. Yn gyntaf, fe ddywedodd wrth Iesu am y broblem. Wedyn, dywedodd wrth y gweision,

"Gwnewch beth bynnag a ddywed wrthych."

Lliwiwch y llythrennau.

4

Roedd hynny'n gyngor da iawn. Mae'n bwysig ein bod ni hefyd yn ufudd i Iesu. Roedd nifer o lestri mawr gerllaw.

C Rhifwch y llestri ac ysgrifennu'r nifer ar un o'r llestri.

2

Dywedodd Iesu wrth y gweision am roi dŵr yn y llestri. Roedd hynny'n waith caled ond fe wnaeth y gweision beth roedd Iesu wedi dweud wrthynt. Fe lanwon nhw'r llestri hyd yr ymyl. "Yn awr, tynnwch beth allan ac ewch ag ef i lywydd y wledd," meddai Iesu. Erbyn hyn, nid dŵr oedd yn y llestri. Roedd wedi troi'n rhywbeth arall!



C Lliwiwch pob siâp sydd â smotyn ynddo.

4

Roedd pawb yn cytuno mai hwn oedd y gwin GORAU!
Hon oedd gwyrth gyntaf Iesu. Roedd wedi defnyddio ei allu i ddatrys problem y bobl. Mae'n dda eu bod wedi gwneud yn union beth a ddywedodd wrthynt. Pe na baen nhw wedi ufuddhau, byddai'r broblem ganddynt o hyd. Mae gennym ni broblem hefyd. Mae'r pethau drwg rydyn ni'n eu meddwl a'u gwneud yn ein gwahanu ni oddi wrth Dduw, ond mae Duw yn ein caru ni ac mae wedi rhoi yr Arglwydd Iesu i'n hachub ni.

Er mwyn cael gwared â'r broblem, mae'n rhaid i ni drystio Iesu ac ufuddhau iddo fel y gwnaeth y gweision yn y briodas.

4

Lliwiwch y llythrennau.

Enw

DARLLENWCH
Ioan 4: 43-54

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 4: 50

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 2 Iesu'n iacháu bachgen sâl.



Un diwrnod, daeth Iesu nôl i'r dref lle'r oedd wedi troi'r dŵr yn win. Cana oedd enw'r dref. Roedd dyn pwysig, swyddog i'r brenin, wedi clywed bod Iesu yno. Aeth yr holl ffordd o'i gartref yng Nghapernaum i weld Iesu.

Roedd yn daith hir – tua 20 milltir ond wnaeth y swyddog ddim cwyno bod y ffordd yn bell. Roedd ei fab yn sâl iawn ac roedd y swyddog eisiau gofyn i Iesu ddod i Gapernaum i wella'r mab.

C Ysgrifennwch enwau'r ddwy dref ar y baneri.



Pan ddaeth y swyddog i Gana, chwiliodd am Iesu a gofyn iddo ddod i'w gartref cyn i'r plentyn farw.

Mae'n siwr bod y tad yn poeni ac wedi blino'n ofnadwy! Wnaeth Iesu ddim gofyn iddo aros yn hir na gwneud rhywbeth anodd. Dywedodd wrtho:-

4

"Dos adref. Y mae dy fab yn fyw."

6

Lliwiwch y llythrennau.

Credodd y swyddog Iesu. Roedd ganddo gymaint o ffydd ynddo fel ei fod yn gwybod nad oedd raid i Iesu ddod 20 milltir i'w gartref i wella'r bachgen. Felly, aeth y swyddog adref i Gapernaum. Dylen ni drystio Iesu hefyd. Mae'n ein caru ni gymaint fel ei fod wedi marw er mwyn i Dduw allu maddau i ni.



Cyn i'r swyddog gyrraedd adref, daeth ei weision i gwrdd ag ef â newyddion da. Roedd y mab yn well. Roedd y gweision yn gallu dweud yn union pryd y digwyddodd hyn. Roedd y tad yn cofio mai dyna pryd yr oedd Iesu wedi dweud "Y mae dy fab yn fyw."

C Gorffennwch y brawddegau hyn:-

Ar y ffordd adref, daeth _ _ _ _ _ _ _ _ y swyddog i'w gyfarfod.

Roedd ganddynt newyddion _ _ iddo.

Roedd y _ _ __ _ _ _ yn fyw.

Roedd y bachgen wedi _ _ _ __ _.

Roedd y teulu cyfan yn hapus iawn! Roedden nhw'n gwybod bod Iesu'n dweud y gwir mai Mab Duw oedd ef. Roedd Iesu'n gallu gwella'r bachgen er ei fod filltiroedd i ffwrdd ac felly roedd y teulu cyfan yn barod i gredu ynddo.

C Tynnwch linell trwy'r ddau ddiwedd ANGHYWIR i'r frawddeg hon.

Gwellodd y bachgen: pan gyffyrddodd Iesu ag ef.

pan gariodd ei dad ef at Iesu.

y funud y siaradodd Iesu amdano.

Enw

DARLLENWCH
Marc 10: 46-52

ADNOD ALLWEDDOL
Marc 10: 52

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 3 Iesu a'r dyn dall.

Diwrnod cyffredin oedd hwn i Bartimeus. Roedd yn eistedd wrth ochr y ffordd ger Jericho yn cardota am arian wrth y bobl oedd yn pasio heibio. Roedd yn ddall a dyna'r unig ffordd y gallai gael arian i fyw.

C Llanwch y llythrennau coll.

Enw'r cardotyn oedd B _ r _ _ m _ _ s.

Roedd yn cardota ger _ _ r _ c _ _.

Roedd rhaid iddo gardota am ei fod yn __ a __.

6

Clywodd sŵn yn y pellter. Roedd yn swnio fel llawer o bobl. Tybed beth oedd yn digwydd? Dywedodd rhywun fod Iesu o Nasareth yn dod. Pan glywodd Bartimeus hynny, roedd yn gwybod mai dyma ei gyfle i gael gweld. Roedd yn gwybod y gallai Iesu roi ei olwg iddo. Dechreuodd weiddi'n uchel.

"Iesu, trugarha wrthyf."

Fab Dafydd,

3

Lliwiwch y geiriau.

Roedd rhai pobl yn flin neu'n grac wrth Bartimeus am wneud ffys. Dywedon nhw wrtho am fod yn dawel ond wnaeth Bartimeus ddim gwrando. Yn wir, dechreuodd weiddi'n uwch nag o'r blaen. Roedd arno eisiau i Iesu ei helpu.
Dylen ni fod fel Bartimeus! Mae angen Iesu ar bawb ohonom ni i faddau ein pechodau. Mae'n bwysig nad ydyn ni'n colli'r cyfle.

Stopiodd Iesu. Gofynnodd Iesu i rywun ddweud wrth Bartimeus ei fod eisiau ei weld. Pan glywodd Bartimeus fod Iesu eisiau ei weld, taflodd ei got i ffwrdd a dod at Iesu.

C Rhowch √ ar ôl y brawddegau CYWIR a × ar ôl y brawddegau ANGHYWIR.

Gwaeddodd Bartimeus yn uchel ar Iesu. .....

Stopiodd Bartimeus weiddi pan ofynnodd y bobl iddo. .....

Cerddodd Iesu heibio i'r cardotyn gan esgus nad oedd yn ei glywed. .....

Cododd Bartimeus a dod at Iesu. .....

Stopiodd y dyrfa Bartimeus rhag mynd at Iesu. .....

5

"Beth wyt ti eisiau i mi ei wneud i ti?" gofynnodd Iesu.
"Arglwydd," atebodd Bartimeus, "rwy eisiau cael fy ngolwg yn ôl."
"Dos," atebodd Iesu. "Mae dy ffydd wedi dy iacháu di."
Cyn gynted ag y dywedodd hynny, cafodd Bartimeus ei olwg yn ôl!
Mae Iesu'n gallu gwneud gwyrthiau fel hyn. Pan fyddwn ni'n trystio Iesu, mae'n gwneud gwyrth fwy. Mae'n maddau ein pechodau ni.

C Llanwch y llythrennau coll gan ddilyn y cliwiau. (Mae'r geiriau i gyd yn y stori.)

1. Pan oedd Iesu eisiau gweld Bartimeus dywedodd y bobl wrtho "_ _ _ dy galon ... y mae'n galw arnat."

2. Taflodd Bartimeus ei _ _ _ _ _ __ i ffwrdd.

3. Galwodd Bartimeus Iesu yn _ _ _ _ _ n _.

4. Cafodd Bartimeus ei _ l _ _ yn ôl.

5. Galwodd Bartimeus Iesu yn Fab _ _ _ y __.

6. Gair arall am "canlyn".



6

Dilynodd Bartimeus Iesu ar hyd y ffordd. Mae'n siwr ei fod yn hapus iawn!
Gallwn ni fod yn hapus hefyd os gwnawn ni drystio Iesu a'i ddilyn ef bob dydd.

Enw

DARLLENWCH
Luc 17: 11-19

ADNOD ALLWEDDOL
Salm 107: 21

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 4 Iesu'n iacháu deg o wahangleifion.

Yn y wlad lle'r oedd Iesu'n byw roedd llawer o bobl yn cael clefyd ofnadwy ar eu croen o'r enw "y gwahanglwyf". Roedd y gwahanglwyf mor ddifrifol fel nad oedden nhw'n cael cymysgu â phobl arall. Roedd rhaid iddyn nhw adael eu teuluoedd a mynd i fyw y tu allan i'r dref neu'r pentref. Un diwrnod, roedd Iesu ar y ffordd i mewn i ryw bentref pan ddaeth deg o ddynion i gwrdd ag ef. Roedd y gwahanglwyf arnyn nhw i gyd! Gan nad oedden nhw'n cael mynd yn agos at neb, fe arhoson nhw'n bell i ffwrdd a gweiddi, "Iesu, feistr, trugarha wrthym."

C Rhowch gylch o gwmpas y geiriau cywir ar ddiwedd y brawddegau hyn:-

Roedd y dynion yn dioddef o BRECH YR IEIR Y FRECH GOCH Y GWAHANGLWYF

Daeth DEG NAW CHWECH o ddynion i gwrdd â Iesu.

6

C Llanwch y bylchau i weld beth wnaeth y dynion ei weiddi ar Iesu.

I __ __ __ ,

f __ __ __ __ __, t __ __ __ __ __ __ __ w __ __ __ __."

6

Dywedodd Iesu wrthynt "Ewch i'ch dangos eich hunain i'r offeiriaid. Fe wnaethon nhw yn union beth ddywedodd Iesu wrthynt a mynd i chwilio am yr offeiriaid. Trwy ufuddhau i Iesu, roedden nhw'n dangos eu bod yn credu ynddo. Cyn iddyn nhw fynd yn bell iawn, digwyddodd gwyrth. Roedd y deg dyn wedi gwella.

C **Beth yw'r gair sydd ar goll yn y frawddeg hon?**

2

Fe gawson nhw eu gwella am iddyn nhw _ _ _ _ _ yr Arglwydd Iesu.

Pan welson nhw beth oedd wedi digwydd, aeth un ohonyn nhw yn ôl i ddiolch i Iesu. Y tro hwn, doedd e ddim yn gorfod aros yn bell oddi wrtho!
Aeth i fyny at Iesu, syrthio wrth ei draed a diolch iddo am ei wella.

Sylwodd Iesu mai dim ond un a ddaeth yn ôl i ddweud "Diolch".

"Nid Iddew oedd yr un a ddaeth yn ôl ond Samariad.

C **Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r eitemau isod i gael gwybod beth ddywedodd y Samariad wrth Iesu.**



6

Dylai pawb ohonom fod yn ddiolchgar – yn enwedig i Dduw sy'n ein caru ac a anfonodd Iesu i farw dros ein pechodau. Ydych chi'n ufudd ac yn ddiolchgar iddo?
Mae'r stori'n gorffen wrth i Iesu ddweud wrth y Samariad "Dy ffydd sydd wedi dy iacháu di." Dyna ddiwrnod hapus iddo! Mae'n bwysig ein bod ninnau'n cofio canmol Duw am ei ddaioni i ni hefyd.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 B2

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120